**EITEM AR YR AGENDA: 7**

**PWYLLGOR ARCHWILIO/PANEL GWEITHREDOL**
**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**

**1 Mehefin 2015**

**CYNLLUN ARCHWILIO 2015-16**

**Adroddiad gan Dawn Docx, Dirprwy Brif Swyddog Tân**

## Diben yr Adroddiad

1 Cyflwyno i'r Aelodau gynllun archwilio drafft 2015-16 ar gyfer Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru fel y mae yn atodiad 1.

## Cefndir

2 Mae'r cynllun archwilio yn nodi'r gwaith arfaethedig a'i gost. Amcan Archwilydd Cyffredinol Cymru yw cynnal archwiliad a chyflawni ei ymrwymiadau dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004, Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009, Deddf Llywodraeth Leol 1999 a'r Cod Ymarfer Archwilio.

## Gwybodaeth

3 Bydd Swyddfa Archwilio Cymru yn gwneud y gwaith a ganlyn:
- Archwilio'r cynllun gwella
- Archwilio'r asesiad o berfformiad
- Adolygu rheolaeth ariannol.

4 Hefyd, mae Swyddfa Archwilio Cymru yn bwriadu gwneud gwaith dilynol ar yr Adolygiad ansawdd Data a'r astudiaeth 'Cyflawni â Llai' a gyflawnwyd yn 2014-15.

5 Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn cynnal tair astudiaeth ymhob cyngor yng Nghymru ac mae wrthi'n ymgynghori â'r awdurdodau tân ac achub ynglŷn â pha un ddylai fod yn gymwys i'r ATAau yng Nghymru. Darperir rhagor o wybodaeth yn y cyfarfod.

6 Y ffi a amcangyfrifir ar gyfer y gwaith archwilio ariannol a pherfformiad am y flwyddyn yw £49,636, gyda'r amod y bydd ffi ychwanegol o bosibl os gwelir bod angen gwaith ychwanegol.

**Argymhelliad**

7 Bod yr Aelodau'n nodi cynllun archwilio 2015.